NEWYDDLEN CYLLID
Cyfleoedd Grant Posibl

# Croeso i Newyddlen Cyllid Mehefin 2026

# Cyllid

## Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Rhaglen cyllid grant i helpu cymunedau sy'n byw o fewn pum milltir i rai gorsafoedd trosglwyddo gwastraff neu safleoedd tirlenwi weithredu dros eu hamgylchedd lleol.

Gall mudiadau wneud cais am grantiau rhwng £5,000 a £49,999

Derbyn ceisiadau yn awr: Mae Ffenestr 2 yn cau ar yr 17eg Gorffennaf 2026

Mwy o Wybodaeth Yma

## Sefydliad Asda
## Cronfa Hanfodion Banciau Bwyd

Os ydych yn fanc bwyd neu’n darparu gwasanaeth bwyd sy’n gorfod cael stoc o fwyd, buddsoddi mewn offer i gyrraedd mwy o bobl, neu eisiau cymorth i allu darparu eich gwasanaethau, mae’r Gronfa Hanfodion Banciau Bwyd yma i helpu.

Mwy o Wybodaeth Yma

## Garantiau Prosiect Hwb Cymunedol

Mae Grantiau Prosiect gwerth hyd at £30,000 yn ariannu prosiectau sylweddol, cydweithiol rhwng o leiaf un GLAM (Orielau, Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd) neu fudiad Treftadaeth ac un grŵp cymunedol. Mae’r grantiau hyn yn cefnogi ymchwil manwl, datblygu sgiliau, a chreu adnoddau parhaol sy’n adlewyrchu lleisiau a phrofiadau amrywiol. Dylai prosiectau gael eu cyd-ddylunio a chael eu harwain gan y gymuned, a rhoi sylw i gynhwysiant, cynaliadwyedd, ac effaith. Daw’r cylch ariannu hwn i ben ar y 12fed Mehefin a bydd 2il gylch yn agor ym Medi 2026.

Am Ragor o Wybodaeth

## Cronfa Gymunedol
## Pawb a'i Le

**Grantiau canolig**
Gallwch ymgeisio am rhwng £20,001 a £100,000 i ariannu prosiect sy’n rhedeg am hyd at 5 mlynedd.

**Grantiau mawr**
Gallwch ymgeisio am rhwng £100,001 a £500,000 i ariannu prosiect sy’n rhedeg am hyd at 5 mlynedd.

Ariannu prosiectau sy'n gweithio'n agos gyda phobl a chymunedau yng Nghymru. Dylai eich prosiect fod yn hygyrch ac ymateb i’r materion sydd bwysicaf i'ch cymuned.
I helpu cymunedau i:

- ddod ynghyd
- helpu plant a phobl ifanc i ffynnu
- galluogi pobl i fyw bywydau mwy iach
- bod yn amgylcheddol gynaliadwy

Mwy o Wybodaeth Yma

## Cronfa Gymunedol Leol Co-op

Mae’r Gronfa Gymunedol Leol yn cefnogi prosiectau sy’n darparu mynediad at gyfleoedd ac adnoddau i helpu pobl i ffynnu:

- yn galluogi pobl i gael mynediad at fwyd
- yn creu cyfleoedd i bobl ifanc
- yn gwella llesiant meddyliol pobl
- yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol
- yn adeiladu dyfodol cynaliadwy

Gwnewch gais erbyn hanner nos ar 24 Mehefin 2026 am gyfle i fod yn rhan o’r Gronfa Gymunedol Leol am gyfnod o 12 mis, gan ddechrau ar 18 Hydref 2026.

Am Ragor o Wybodaeth

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

## Arian i Bawb

Ymgeisiwch yma am grantiau hyd at £20,000

## Grantscape

GrantScape

Chwiliwch yma am gyfleoedd Grantiau yn eich ardal chi

# Cyfleoedd Rhanbarthol

CYNGOR GWYNEDD

## Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd

Mae’r gronfa wedi’i sefydlu er mwyn galluogi cymunedau i wella edrychiad, cyfleusterau a bwrlwm trefi a phentrefi ar draws y sir trwy welliannau bach, effaith uchel.

Nod y gronfa yw ymateb yn uniongyrchol i anghenion a blaenoriaethau trigolion ar draws Gwynedd, gan gyfarch tair thema benodol:

- gwelliannau i ofodau cymunedol,
- gwelliannau mannau cyhoeddus,
- adfywio canol trefi a’r stryd fawr.

Bydd y gronfa yn cau i geisiadau ar 15 Mehefin, 2026.

Mwy o Wybodaeth Yma

# Grant Haf Llawn Lles 2026

Mae cyllid Haf Llawn Lles ar gael drwy Gyngor Abertawe

**Mae'r grant hwn yn cyfuno pedwar cynllun cyllido yn un grant:**

1. COAST (Creu Cyfleoedd ar draws Abertawe Gyda'n Gilydd) - Plant a Phobl Ifanc
2. COAST (Creu Cyfleoedd ar draws Abertawe Gyda'n Gilydd) - 50 oed ac yn hŷn
3. Grant Bwyd yn ystod y Gwyliau
4. Cymorth Bwyd Brys

Y dyddiad cau: 8 Mehefin 2026.

Am Ragor o Wybodaeth

---

# Cronfa Gymunedol Burbo Bank Extension

Grantiau rhwng £500 a £20,000 ar gyfer prosiectau cymwys mewn cymunedau arfordirol penodol oddi ar y Môr Celtaidd (Gogledd Cymru).

Dyddiad cau: Cylch 1af: 23ain Medi 2026 / 2il gylch: 31ain Mawrth 2027

Am Ragor o Wybodaeth

# Bioamrywiaeth

**Cadwch Gymru'n Daclus**

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**

Gwnewch gais yn awr am becynnau gardd rhad ac am ddim.

Darganfyddwch Fwy Yma

**Cronfa Ymestyn Allan**

Grantiau bychain i gefnogi tymor newydd o blannu coed cymunedol.

Darganfyddwch Fwy Yma

**Cronfa Plannu Coed Cymunedol Network Rail**

Mae'r Cyngor Coed a Network Rail yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi plannu coed cymunedol.

Darganfyddwch Fwy Yma

# Dulliau Defnyddiol i Chwilio am Arian

Mae defnyddio peiriannau chwilio arian yn gallu eich helpu i ddod o hyd i gyfleoedd ariannu i'ch cyngor a grwpiau cymunedol.Mae nifer o Gronfeydd Buddion Cymunedol – cyfraniadau ariannol a wneir gan ddatblygwyr (e.e. ffermydd gwynt) i gefnogi prosiectau lleol.

Cyllido

Cymru

Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

**Un Llais Cymru**

24c Stryd y Coleg

Rhydaman

SA18 3AF

Un Llais Cymru

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar Gwneud ceisiadau grant effeithiol**

Dad-Tanysgrifio

SENT BY mailer lite